

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Ile rhoddwyd rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
Rossett Dental Care**

21 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Y cyd-destun .....	3
3.	Crynodeb .....	4
4.	Canfyddiadau .....	5
	Ansawdd Profiad y Claf .....	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	12
5.	Y camau nesaf .....	14
6.	Methodoleg .....	15
	Atodiad A.....	17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Gyfrannu at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr cyflogedig
- Rhoi mwy o lais i gleifion ac i'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth brydlon, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bob un ohonom.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Rossett Dental Care, Station Road, Yr Orsedd, Wrecsam, LL12 0ER ar 21 Ionawr 2016.

Ymchwiliodd AGIC i'r modd yr oedd Rossett Dental Care yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ynghylch arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd a ganlyn:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn hwyluso'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn ôl safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Y cyd-destun

Mae Rossett Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Wrecsam. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Rossett Dental Care yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat ac i'r GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys 3 deintydd, 2 nyrs deintyddol cofrestredig, 1 rheolwr practis, 1 therapydd ac 1 derbynnydd/nyrs deintyddol o dan hyfforddiant.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol i'r GIG ac yn breifat.

### 3. Crynodeb

Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd y cleifion a gyflwynodd holiaduron wedi'u llenwi wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion). Roedd yn cyd-fynd â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymateb i bryderon am ofal y GIG yng Nghymru.

Gwnaethom ganfod bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio delweddau pelydr-X yn ddiogel. Roedd staff wedi cael hyfforddiant ynghylch sut i ymateb i argyfwng yn achos claf (ymgwmpiad) ac roeddent yn gallu cael gafael ar gyffuriau a chyfarpar brys. Roedd trefniadau ar waith i gael gwared ar wastraff a gynhyrchwyd yn y practis. Dangosodd staff broses foddhaol o ddadheintio offerynnau deintyddol. Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod cofnodion deintyddol cleifion wedi'u cynnal i safon uchel.

Roedd rheolwr yn gyfrifol am y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swydd a'u bod yn teimlo bod aelodau'r tîm yn cyfathrebu'n dda â'i gilydd. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisïau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwnaethom wahodd cleifion i ddweud wrthym am eu profiadau o ddefnyddio'r practis. Dywedodd y cleifion a gyflwynodd holiaduron wedi'u llenwi wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir. Roedd gan y practis weithdrefn ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion). Roedd yn cydfynd â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymateb i bryderon am ofal y GIG yng Nghymru.**

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn canfod safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Daeth ugain (20) holiadur i law ac roedd sylwadau'r Cleifion yn cynnwys:

*Mae'r holl staff yma yn gyfeillgar iawn ac yn sicrhau bod gennyh y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn maent yn ei wneud. Mae'n bractis rhagorol*

*Bob amser yn barod i helpu ac yn gyfeillgar*

*Rwyf yn fodlon iawn gyda fy nhriniaeth*

*Mae'r practis yn un rhagorol*

Dywedodd cleifion a ddarparodd sylwadau yn yr holiaduron wrthym fod y staff yn groesawgar, yn gwrtais ac yn barod i helpu. Roedd cleifion yn fodlon ar gyfanswm y wybodaeth yr oeddent yn ei chael a gwnaethant sôn am y cyngor a'r cymorth yr oeddent yn eu cael pan oedd angen eglurhad pellach am y driniaeth.

Roedd proses ar waith ar gyfer hysbysu cleifion pe bai eu deintydd ar ôl yr amserlen.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion, ynghyd â'r amseroedd agor a'r rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau (argyfwng) wedi'u harddangos yn glir y tu mewn a'r tu allan, ger y brif fynedfa.

Fodd bynnag, dywedodd 7 o'r 20 o gleifion a ddarparodd sylwadau yn yr holiaduron wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaethau hyn. O ganlyniad, efallai yr hoffai perchennog y practis a rheolwr y practis ystyried sut i godi ymwybyddiaeth o hyn ymhellach.

Gwelsom fod taflen wybodaeth practisau ar gael ac roedd yn cynnwys gwybodaeth ymarferol a defnyddiol. Roedd taflenni gwybodaeth ychwanegol ar gael ynghylch ffyrdd iach o fyw a rhoi'r gorau i smygu.

Roedd y practis wedi asesu safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Cynhelir yr arolwg hwn yn fisol. Roedd yr arolwg diwethaf wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2015. Gwelsom fod canlyniadau'r arolwg diwethaf wedi'u harchwilio i ganfod unrhyw themâu a bod y canlyniadau yn gadarnhaol ym mhob maes. Gwnaethom awgrymu y dylai canlyniadau'r arolygon fod ar gael i'r cleifion. Roedd blychau awgrymiadau ar gyfer sylwadau cleifion ar gael ym mhob ardal aros.

Nid oedd gan y practis gyfleuster parcio dynodedig i gleifion ei ddefnyddio. Fodd bynnag, roedd maes parcio cyhoeddus di-dâl ar gael wrth ochr y practis.

Roedd mynediad i'r practis i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r rhai ag anawsterau symudedd sylweddol. Efallai yr hoffai'r practis adolygu a all system golau drws fod o gymorth i'r cleifion hynny sydd ar eu pen eu hunain gan y bydd yn rhaid i'r derbynnnydd agor y drws fel y gellir dod i mewn i'r practis.

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaethau preifat ac i'r GIG ac roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar waith i gleifion ynghylch cyflwyno pryderon (cwynion). Roedd y weithdrefn yn bodloni gofynion y rheoliadau deintyddiaeth breifat ac yn cydymffurfio â *Gweithio i Wella*, sef y trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon am ofal y GIG yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd angen cynnwys manylion ynghylch y cymorth/gwasanaeth eiriolaeth y mae'r cyngor iechyd cymuned yn ei gynnig.

Gwnaethom ganfod tystiolaeth fod pryderon (cwynion) ffurfiol/ysgrifenedig yn cael eu cofnodi a'u cofrestru mewn ffeil gwynion. Dywedwyd wrthym fod cwynion anffurfiol/ar lafar yn cael eu nodi a'u cofrestru. Roedd cwynion yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y practis i rannu gwersi, gyda'r bwriad o wella'r gwasanaeth. Dywedodd staff wrthym y byddent yn fodlon mynegi pryderon ynglŷn â gwaith i staff uwch y practis.

Pan wnaethom ofyn i gleifion am y weithdrefn i'w dilyn, dywedodd 14 o'r cleifion a ddychwelodd holiaduron wrthym eu bod yn gwybod sut i gyflwyno cwyn a dywedodd 6 claf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gyflwyno cwyn. Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion yn y practis ynglŷn â sut i gyflwyno pryder (cwyn). Fodd bynnag, efallai yr hoffai perchennog y practis a rheolwr y practis ystyried sut i godi ymwybyddiaeth o hyn ymhellach.

Roedd manylion bandiau prisiau'r GIG ar gyfer cael triniaeth wedi'u harddangos ynghyd â gwybodaeth am gymhwysedd cleifion i gael triniaeth ddi-dâl. Roedd prisiau gwasanaethau deintyddol preifat ar gael hefyd. Roedd hyn yn golygu fod



cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn gallu cael gafael ar wybodaeth am faint y gallai fod yn rhaid iddynt ei dalu am eu triniaeth ddeintyddol.

## ***Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol***

**Gwnaethom ganfod bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd staff wedi cael hyfforddiant ynghylch sut i ymateb i argyfwng yn achos claf (ymgwympiad) ac roeddent yn gallu cael gafael ar gyffuriau a chyfarpar brys. Roedd trefniadau ar waith i gael gwared ar wastraff a gynhyrchwyd yn y practis. Dangosodd staff broses foddhaol o ddadheintio offerynnau deintyddol. Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod cofnodion deintyddol cleifion wedi'u cynnal i safon uchel.**

### Amgylchedd

Mae practis Rossett Dental Care yn defnyddio adeilad sengl ar stryd breswyl yn y pentref.

Roedd wyneb blaen yr adeilad i'w gweld i fod yn cael ei chynnal yn dda ac roedd arwyddion yn tynnu sylw at y practis. Mae'r tu mewn i'r adeilad yn olau a glân, ac mae awyrgylch cynnes a chyfeillgar yno. Mae'r practis yn cael ei ymestyn ar hyn o bryd i gynnig mwy o gyfleusterau i gleifion a staff.

Roedd mynediad i'r practis i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r rhai ag anawsterau symudedd sylweddol.

Roedd arwyddion yn tynnu sylw at allanfeydd tân ac roedd offer diogelwch rhag tân ar gael mewn amryw o leoliadau yn adeilad y practis. Roedd labeli cynnal yn dangos bod diffoddwyr wedi bod yn destun ymweliad gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn golygu bod gan staff a chleifion wybodaeth fel y gallent wagio'r adeilad yn ddiogel pe byddai tân a bod offer diffodd tân ar gael i staff ei ddefnyddio pe byddai angen.

Mae gwaith cynnal a chadw'r adeilad yn destun rhaglen dreigl.

### Cyfleusterau Clinigol

Mae'r cyfleusterau yn y practis wedi'u trefnu ar y llawr daear. Mae hyn yn cynnwys ardal dderbynfa, ystafell aros, dwy ddeintyddfa, ystafell ddadheintio, swyddfa, toiled cyffredinol (â mynediad i bobl anabl ac a oedd yn cynnwys cyfleusterau addas ar gyfer golchi dwylo a thyweli papur i leihau achosion o groes-heintio), ac ystafell radiograffeg. Nodwyd nad oedd gan y toiled i gleifion system galw â larwm argyfwng, sy'n rhywbeth y cynghorir y dylid ei gael. Fodd bynnag, mae modd gweld y cyfleuster o ardal y dderbynfa.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Roedd trefniadau ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff

domestig/nad yw'n beryglus. Roedd y gwastraff yr oedd y practis yn ei gynhyrchu yn cael ei storio'n ddiogel tan iddo gael ei gasglu.

Mae gan y practis ystafell ddadheintio ar wahân fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)<sup>1</sup>. Dylai hyn, ynghyd â defnyddio gweithdrefnau rheoli priodol, leihau'r perygl o groesheintio offerynnau.

Gwnaethom arsylwi aelod o staff yn ystod y broses ddadheintio a gwnaethom ganfod bod y broses wedi'i chwblhau'n foddhaol.

Roedd gan y practis un peiriant aerglos (a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar/offerynnau deintyddol) a oedd â thystysgrif arolygu gyfoes yn cadarnhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd stribedi profi ar gael ac roeddent yn dangos bod profion dyddiol wedi'u cynnal i ganfod a oedd y peiriant aerglos wedi cyrraedd "tymheredd a phwysedd" sterileiddio addas a bod hyn wedi'i gynnal am gyfnod penodol. Roedd cofnodion/llyfrau lòg ar gael i ddangos a oedd profion arferol eraill, a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, wedi'u cynnal ar y peiriant aerglos ac i gadarnhau ei fod yn parhau'n addas i'w ddefnyddio fel y bwriedir. Gwnaethom gynghori y dylai allbrint cyntaf y peiriant aerglos gael ei gysylltu â llyfr sydd â thudalen ar wahân ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos. Gwnaethom nodi nad oedd gwiriadau tymheredd ar waith ar hyn o bryd o ran arllwysfeydd gwarchod (sentinel). Mae angen cychwyn y gwiriadau hyn a'u cofnodi, a hynny'n fisol. Gwnaethom gynghori hefyd y dylid cofnodi'r gwiriadau misol o'r cywasgydd.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

### ***Mae angen cofnodi'r gwiriadau o arllwysfeydd Gwarchod a Chywasgwyr.***

Gwelsom fod offerynnau wedi'u pecynnu i leihau'r perygl o heintio pan oeddent yn cael eu storio. Roedd tîm y practis wedi cofnodi'r dyddiad terfyn ar gyfer defnyddio'r offerynnau. Efallai yr hoffai'r practis ystyried ailbrosesu offerynnau wedi'u sterileiddio ar ôl mis, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

---

<sup>1</sup> Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru \(WHTM 01-05\) \(Adolygiad 1\)](#) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd staff yn gallu cael gafael ar gyfarpar dadebru a chyffuriau brys pe bai argyfwng yn achos claf (ymgwmpiad) yn y practis. Nodwyd nad oedd maint wedi'i farcio ar y silindr ocsigen. Cynghorwyd y dylai'r prif ddeintydd adolygu canllawiau Cyngor Dadebru'r DU ynghylch silindrau ocsigen wrth gefn, yn arbennig gan fod y practis yn tawelyddu cleifion o bryd i'w gilydd. Roedd poster ar gael ac yn arddangos y gweithdrefnau ar gyfer amryw o argyfyngau meddygol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant yn y deuddeng mis diwethaf ynghylch sut i weithredu dadebriad cardio-pwlmonaidd (CPR). Roedd tystysgrifau hyfforddi a welsom yn ategu hyn. Cynghorwyd y dylai staff y practis ystyried ymarfer sefyllfaoedd o ran dadebriad cardio-pwlmonaidd yn y cyfnod rhwng yr hyfforddiant blynyddol.

Dywedodd staff wrthym fod system ar waith ar gyfer adnabod y cyffuriau a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad terfyn a chael rhai newydd yn eu lle, ac i wirio cyfarpar brys yn y practis yn rheolaidd. Caiff hyn ei wirio a'i gofnodi yn fisol. Gwnaethom wirio'r cyffuriau brys gan ganfod eu bod i gyd o fewn eu cyfnod dyddiad. Gwnaethom ganfod nad oedd y diffibriliwr wedi'i gynnwys ar y rhestr wirio a gwnaethom nodi y dylai gael ei ychwanegu at y rhestr. Gwnaethom gynghori y dylid cynnal y gwiriad hwn yn wythnosol yn unol ag argymhellion Cyngor Dadebru'r DU.

Roedd padiau rhagnodi wedi'u storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio er mwyn rhwystro personau anawdurdodedig rhag eu defnyddio. Fodd bynnag, cynghorir y dylid cadw cofnod o bob presgripsiwn annilys a phob presgripsiwn a roddir.

Gwnaethom ganfod bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl ddogfennau a gwybodaeth berthnasol sy'n ofynnol. Gwnaethom nodi bod y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gofyn am gymhwyster Mewnblanegydd sy'n ymweld. Roedd copïau o dystysgrifau hyfforddi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn ofynnol yng nghyswllt y mewnblanegydd a deintydd cyswllt.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gofyn am gymhwyster Mewnblanegydd sy'n ymweld. Roedd copïau o dystysgrifau hyfforddi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn ofynnol yng nghyswllt y mewnblanegydd a deintydd cyswllt.***

Roedd tystysgrif gwiriad diogelwch gyfredol ar gael ar gyfer yr offer. Gwelsom dystysgrifau a ddangosodd fod yr hyfforddiant yr oedd staff wedi'i gael ynghylch

defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel yn gyfoes. Roedd rheolau lleol (ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X a chreu delweddau pelydr-X) ar gael. Fodd bynnag, mae angen teilwra'r rhain yn ôl amgylchiadau penodol ym mhob deintyddfa, a chytunodd y practis i ymgymryd â hyn.

### ***Y gwelliant sydd ei angen***

#### ***Mae angen teilwra rheolau lleol yn ôl amgylchiadau penodol ym mhob deintyddfa.***

Roedd delweddau pelydr-X digidol yn cael eu defnyddio ac roedd system sicrhau ansawdd ar waith i sicrhau bod ansawdd delweddau'r rhain yn cael ei raddio a'i gofnodi. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori'r practis i gadw llyfr lòg o'r broses o gofnodi delweddau pelydr-X a'u graddio.

Gwnaethom adolygu sampl o 10 o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi'u cwblhau gan ddau o'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis. Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod y cofnodion wedi'u cynnal i safon uchel a bod nodiadau wedi'u cofnodi mewn modd cyson a chynhwysfawr. Gwnaethom ganfod bod cyngor ynghylch risgiau a manteision triniaethau a thriniaethau amgen wedi'u cofnodi; roedd cynlluniau trin wedi'u llofnodi gan gleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom yn dangos bod cyngor hybu iechyd, gan gynnwys gwell iechyd y geg, wedi'i ddarparu gan y deintyddion.

Roedd triniaethau, costau, manteision a dewisiadau amgen wedi'u hegluro a'u cofnodi yn y nodiadau. Caiff cydsyniad ei drafod a'i sicrhau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd rhai nodiadau'n cynnwys graddau radiograffau ac er bod y cyfnod galw'n ôl wedi'i asesu, nid oedd dim cyfiawnhad clinigol wedi'i gofnodi yn y cyswllt hwn.

### ***Y gwelliant sydd ei angen***

#### ***Dylai graddau radiograffau a'r cyfiawnhad clinigol dros gyfnod galw cleifion yn ôl gael eu cofnodi yn nogfennau'r cleifion.***

Roedd gan y practis weithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer ymateb i faterion ynghylch amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd manylion cyswllt timau diogelu lleol ar gael fel bod staff yn gallu cael gafael ar wybodaeth ynghylch pwy i gysylltu â hwy i gael cyngor am faterion diogelu. Roedd staff wedi mynychu hyfforddiant ynghylch amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

## ***Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Roedd rheolwr yn gyfrifol am y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Dywedodd staff wrthym fod ganddynt gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swydd a'u bod yn teimlo bod aelodau'r tîm yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ynghyd â sesiynau 'gwrando a dysgu' amser cinio, misol, ar gyfer pob aelod staff.**

**Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar waith ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol diogel. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd staff wedi cael hyfforddiant ynghylch amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd archwiliadau'n cael eu cynnal mewn rhannau gwahanol o'r practis.**

Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am y gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd ac eglurodd y byddai'n ymgymryd â dyletswyddau aelodau eraill o'r tîm yn ôl yr angen. Roedd rheolwr y practis yn gyfarwydd iawn â phob agwedd ar y practis a dangosodd ymrwymiad clir i gynnal ansawdd a safonau yn y practis, ac i'w gwella.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod yswiriant indemniad dilys ar waith ganddynt.

Roedd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol i'r GIG ac yn breifat. Er mwyn i ddeintyddion ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru, rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru gydag AGIC. Gwelsom fod gan y deintyddion dystysgrifau cofrestru cyfredol gan AGIC a oedd yn cadarnhau eu bod wedi'u cofrestru. Roedd y rhain wedi'u harddangos yn amlwg yn unol â'r rheoliadau perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat.

Roedd cofnodion ar gael hefyd a oedd yn cadarnhau bod staff clinigol sy'n gweithio yn y practis wedi cael brechiadau Hepatitis B. Roedd hyn yn golygu bod staff wedi cymryd camau priodol i sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch cleifion rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Gwnaethom siarad â staff a oedd yn gweithio yn y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Eglurodd y staff eu bod yn gallu ymgymryd â hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swydd ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddiant staff a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ynghylch amryw o bynciau. Roedd hyn yn golygu bod

cleifion yn cael eu trin gan staff a oedd yn meddu ar y sgiliau priodol ac a oedd wedi cael hyfforddiant cyfredol.

Dyweddodd staff wrthym fod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod pynciau sy'n berthnasol i'w gwaith yn cael eu trafod. Gwnaethant gadarnhau eu bod yn gallu crybwyll materion sy'n gysylltiedig â'r gwaith i'w trafod yn y cyfarfodydd hyn. Gwelsom fod nodiadau o gyfarfodydd y practis wedi'u cynnal. Mae proses o adolygu gan gymheiriaid yn mynd rhagddi yn ddyddiol. Fodd bynnag, mae angen cofnodi'r broses hon. Roedd arfarniadau blynyddol o'r staff yn cael eu cynnal.

Roedd gan y practis ystod gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaethau deintyddol diogel i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Polisi Diogelu data
- Asesiadau'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Diogelu Plant
- Diogelu Oedolion
- Rheoli Heintiau
- Iechyd a Diogelwch
- Preifatrwydd ac Urddas
- Cyfle Cyfartal
- Cleifion, Preifatrwydd, Urddas a Chyfrinachedd.

Roedd system ar waith ar gyfer sicrhau bod yr holl aelodau staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau a rhybuddion.

Mae nifer o archwiliadau wedi'u cynnal yn ddiweddar; roedd y rhain yn cynnwys adolygiad o'r broses o reoli heintiau a sicrhau ansawdd ffilm delweddau pelydr-X. Mae'r canlyniadau ac unrhyw gamau gofynnol wedi'u cyflwyno i'r tîm staff.

## 5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Rossett Dental Care yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.



## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<sup>2</sup> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011<sup>3</sup>. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r safle
- Gwybodaeth a geir yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn cael adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a all godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r broses o weithredu safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

**Atodiad A**

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Rossett Dental Care**

**Dyddiad yr arolygiad: 21 Ionawr 2016**

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
	Nid yw'n berthnasol				
<b>Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol</b>					
Tudalen 9	Mae angen cofnodi gwiriadau o arllwysfeydd Gwarchod (sentinel) a Chywasgwyr.	Rheoliad 14(3)(b)			
Tudalen 10	Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn gofyn am gymhwyster Mewnblanegydd sy'n ymweld. Roedd copïau o dystysgrifau hyfforddi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) yn ofynnol yng nghyswllt y	Rheoliad 14(1)(b)  Rheoliad 14(1)(b)			

Rhif Tudalen	Yr Hyn Sydd Angen ei Wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 11	mewnblanegydd a deintydd cyswllt. Mae angen teilwra rheolau lleol yn ôl amgylchiadau penodol ym mhob deintyddfa.				
Tudalen 11	Dylai graddau radiograffau a'r cyfiawnhad clinigol dros gyfnod galw cleifion yn ôl gael eu cofnodi yn nogfennau'r cleifion.	Rheoliad 14(1)(b)			
<b>Ansawdd y Rheolaeth a'r Arweinyddiaeth</b>					
	Nid yw'n berthnasol				

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** .....

**Teitl:** .....

**Dyddiad:** .....